# Bywyd fel Plentyn
# Bryd Hynny a Nawr

Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio atgofion o dyfu i fyny yng Nghaerdydd i ystyried sut y gwnaeth plant eu hwyl eu hunain yn y gorffennol o gymharu* â heddiw.

Byddwch yn darllen straeon pobl ac yn dysgu sut roedden nhw'n gwneud teganau a gemau pan oeddent yn ifanc.




Gofynnir i chi feddwl am y pethau rydyn ni'n eu taflu i ffwrdd a sut y gellid eu hailddefnyddio* i wneud pethau newydd, fel teganau a gemau.

## A wyddech chi?

Byddai llawer o blant Fictoraidd wedi bod yn lwcus i gael teganau.

Efallai y byddent wedi cael pethau syml fel rhaffau sgipio a marblis.

## A wyddech chi?

Ni wnaed teganau plastig tan ddiwedd y cyfnod Fictoraidd.

Mae llawer o deganau heddiw wedi'u gwneud o blastig.

© Amgueddfa Caerdydd / Museum of Cardiff

# Gwneud Teganau a Gemau.

Byddai plant yn y gorffennol yn defnyddio eu dychymyg i wneud gemau a throi'r pethau wnaethon nhw eu canfod yn deganau.

**Darllenwch y straeon isod:**

**1920au** **Mae Edward Kendrick yn cofio dod o hyd i eitemau i wneud ei gartiau ei hun:**

"Roedd yn rhaid i rywun gael set o olwynion o'r domen sbwriel leol ac ar ôl hynny, blwch lle'r oeddech chi'n eistedd ac yn llywio gyda rhaff wedi'i glymu at yr olwynion blaen."

**1970au** **Mae Alyson Hawkins yn cofio gwneud teganau a gemau:**

"Fe wnaethon ni greu gemau drwy'r amser, oedd fel arfer yn cynnwys y prif grŵp cyfan o ffrindiau. Roeddem yn arfer gwneud esgidiau ffon loli, gan wau gwahanol ffyn loli gyda'i gilydd. Roedden ni hefyd yn gwneud barcutiaid, o ffyn a phapur brown, gyda phowlenni papur..."

**2010au** **Mae Eliza, 7 oed, yn dweud wrthym am ei hoff degan:**

"Fy hoff gêm yw fy Nintendo DS, oherwydd pan fyddwch chi'n chwarae'r gemau rydych chi'n dewis cymeriad ac rydych chi'n gwneud pethau gyda nhw. Gallwch chwarae ar eich pen eich hun neu gallwch chwarae yn erbyn rhywun arall.

© Amgueddfa Caerdydd / Museum of Cardiff

# Pethau o Gasgliad Amgueddfa Caerdydd.

Dyma rai pethau sydd wedi eu rhoi i'r Amgueddfa.


**Pa un o'ch teganau fyddech chi'n ei roi a pham?**

**1940au**



Gwnaeth tad Marian y pyped marionette pren hwn yn y 1940au.

**1950au**



Gwnaeth tad-cu Wally ef y ceffyl pren hwn yn y 1950au.

**1980au**



Roedd y beic tair olwyn hwn yn perthyn i Ivor, sy'n cofio ei reidio o amgylch ei ardd yn y 1980au.

**1990au**




Roedd y consol gemau SEGA Megadrive hwn yn perthyn i Jim. Mae'n cofio gwahodd ffrindiau i'w dŷ i chwarae yn y 1990au.

© Amgueddfa Caerdyd / Museum of Cardiff

# Trwsio

**Cafodd y syniad o drwsio popeth ei ddefnyddio gyntaf gan y llywodraeth yn y 1940au, i annog pobl i drwsio, ailddefnyddio a dod o hyd i ddefnyddiau newydd ar gyfer eu hen ddillad.**

Yn y gorffennol, nid oedd pethau parod ar gael yn hawdd i'r rhan fwyaf o deuluoedd eu prynu.

Byddai teuluoedd yn trwsio eu dillad ac yn eu trosglwyddo i aelodau iau er mwyn iddynt gael eu hailddefnyddio.



Plant yn gwneud basgedi gwiail yn yr ysgol.

© Archifau Morgannwg / Glamorgan Archives

Cafodd bwyd, dillad ac eitemau eraill eu dogni* yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

## A wyddech chi?

Nid oedd archfarchnadoedd yn y DU tan 1948.

Cyn hynny, byddai'n rhaid i deuluoedd fynd i siopau unigol, fel cigyddion a siopau bwyd, i gael yr hyn yr oedd ei angen arnynt ar gyfer eu siop wythnosol.

© Amgueddfa Caerdydd / Museum of Cardiff

# Bywyd fel Plentyn Bryd Hynny a Nawr

## Geirfa*

• **Cymharu –** Edrych ar fwy nag un peth, i ddangos y gwahaniaethau a'r pethau sy'n debyg rhyngddynt. Er engraifft, mae'r tegan hwn yn las o'i gymharu a'r tegan hwn sy'n coch.

• **Ailddefnyddio –** I ddefnyddio rhywbeth eto.

• **Dogni –** Pan fydd pethau sydd eu hangen ar bobl yn cael eu rhannu mewn symiau bach. Er enghraifft, cafodd rhywfaint o fwyd a dillad eu dogni yn ystod yr Ail Ryfel Byd i sicrhau bod yr hyn oedd ar gael yn cael ei rannu.

© Amgueddfa Caerdydd / Museum of Cardiff

# Gweithgaredd: Gwneud Pethau Newydd allan o Hen Bethau.

Parhaodd syniadau o drwsio ac ailddefnyddio am gyfnod hir ar ôl i'r Ail Ryfel Byd ddod i ben ym 1945.

Gellir defnyddio rhai o'r syniadau newydd hyn heddiw, i leihau'r gwastraff a wnawn a'n helpu i ofalu am ein planed.

**Gwneud pethau newydd allan o hen bethau.**

1. Ysgrifennwch restr o bethau rydych chi fel arfer yn eu taflu i ffwrdd.
2. Nawr meddyliwch sut y gallech ddefnyddio'r pethau hyn i wneud rhywbeth newydd, fel teganau neu gêm.
3. Tynnwch lun ohono ac ysgrifennwch am sut y caiff ei ddefnyddio.

**Pethau rwy'n eu taflu i ffwrdd. (Rhestrwch nhw yn y gofod isod.)**

________________________

________________________

________________________

________________________

________________________

**Llun o'm peth newydd. (Tynnwch lun neu disgrifiwch ef yn y gofod isod.)**

**Sut y caiff ei ddefnyddio. (Disgrifiwch ef yn y gofod isod.)**

© Amguedfa Caerdydd / Museum of Cardiff

# Hwyl y Tu Allan.

Mae parciau a mannau gwyrdd Caerdydd wedi bod yn boblogaidd gyda phlant ers amser maith.

© Llyfrgelloedd Caerdydd / Cardiff Libraries



Plant yn padlo yn Nant Lleucu, Parc y Rhath, tua 1900.



Plant y tu allan i'r ysgol, odd.1940au.

Mae Phillip Bristow yn cofio sut roedd tymhorau ar gyfer gwahanol deganau a gemau:

"Roedd hi fel 'taen ni allan yn chwarae ar y palmant neu yn y ffordd o hyd. Gan nad oedd fawr ddim o draffig roedd digon o le.

Roedd gennym fat a phêl, hŵpiau, chwyrligwgan, marblis, a sgots dros farciau sialc ar y palmant.

Roedd tymhorau ar gyfer y rhan fwyaf o'r rhain ac, wrth gwrs, conceri. Daeth y tymhorau hyn o gwmpas bron heb i neb sylwi, ond doeddech chi ddim ond yn chwarae gemau yn ystod rhan benodol o'r flwyddyn"

Gan eich bod bellach wedi dysgu sut y chwaraeodd plant yn y gorffennol, beth ydych chi'n meddwl sy'n wahanol nawr a beth sydd yr un fath?

Sut ydych chi'n meddwl y bydd plant yn cael hwyl yn y dyfodol?

© Amgueddfa Caerdydd / Museum of Cardiff